Adroddiad ar

# Treowen 3 Plus

Calon y Dderwen
Campws Treowen
Y Drenewydd
Powys
SY16 1NH

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2026

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

ac

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Treowen 3 Plus

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Treowen Three Plus |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd |
| Person(au) cofrestredig | Gwasanaethau Gofal Plant a Chwarae Cyngor Sir Powys |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Carl Hyde |
| Person â gofal | Samantha Davies |
| Nifer y lleoedd | 20 |
| Ystod oedran y plant | Plant tair i bedair oed |
| Nifer y plant 3 a 4 oed | 17 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 16 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener, 9.00am – 3.00pm |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad yn gweithredu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 27/02/24 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 01/10/18 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 24/02/2026 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Hyrwyddo diddordeb plant mewn llyfrau a storïau

A2 Sicrhau bod ymarferwyr yn defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg syml yn gyson fel bod plant yn datblygu eu dealltwriaeth yn effeithiol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae gan bron bob un o'r plant lais cryf, ac maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau yn ddeallus wrth chwarae. Maent yn symud yn hyderus rhwng gwahanol weithgareddau ac yn dilyn eu diddordebau personol yn effeithiol. Er enghraifft, yn ystod y bore, mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau dysgu ar unwaith yn yr ardaloedd chwarae, a llawer ohonynt yn chwarae rôl, yn paratoi cinio yn y gegin ac yn gwerthu hufen iâ yn y siop. Maent yn siarad yn hapus gydag ymarferwyr, gan wybod y byddant yn gwrando arnynt yn ystod eu chwarae. Mae'r rhan fwyaf o blant yn hapus ac yn llawn cyffro pan fyddant yn cyrraedd y lleoliad ac yn gyfforddus yng ngofal yr ymarferwyr. Maent yn ymdopi'n dda wrth iddynt gael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr heb ffwdan, gan aros yn amyneddgar i'w ffrindiau gyrraedd a chodi llaw arnynt wrth iddynt gyrraedd. Mae bron pob un o'r plant yn gwbl gyfarwydd â'r arferion bob dydd. Er enghraifft, mae plant yn gwybod bod angen iddynt olchi eu dwylo cyn amser byrbryd a'i bod yn amser brwsio'u dannedd ar ôl iddynt hunangofrestru wedi iddynt gyrraedd y lleoliad.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymddwyn yn dda iawn yn ystod cyfnodau chwarae rhydd a gweithgareddau grŵp. Maent yn rhannu adnoddau'n dda ac yn dechrau deall sut i gymryd eu tro yn llwyddiannus, er enghraifft trwy gynnig tro i'w ffrindiau tra'n sgwrsio ar y ffonau symudol tegan. Maent yn dangos empathi tuag at bobl eraill ac yn gofyn i ymarferwyr am deimladau eu cyfoedion os oes golwg drist arnynt. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol ag ymarferwyr a'u ffrindiau ac yn hapus i droi at ymarferwyr i chwarae neu gael cysur. Mae llawer o blant yn gwrtais wrth gael cymorth â'u byrbryd ac yn diolch i ymarferwyr wrth iddynt eu cynorthwyo i dywallt llaeth o garton.

Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau arbrofi ag amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae symbylol. Maent yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu ac yn chwilfrydig pan gaiff lliw bwyd ei ychwanegu at ddŵr i wneud diodydd gwahanol liwiau. Maent yn hyderus wrth symud o un gweithgaredd i'r llall ac yn dyfalbarhau a chanolbwyntio am gyfnodau estynedig. Er enghraifft, mae plant yn mwynhau creu strwythurau tri dimensiwn gan ddefnyddio'r teils magnetig tra bod plant eraill yn ymdrochi mewn creadigrwydd tra'n trin y toes chwarae.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn manteisio ar y detholiad da o gyfleoedd chwarae rhydd yn y brif ystafell ac yn yr ardal awyr agored yn annibynnol. Mae bron pob un ohonynt yn datblygu eu medrau annibynnol a hunangymorth yn dda, er enghraifft pan fyddant yn gwisgo'u cotiau a'u hesgidiau glaw i chwarae'r tu allan. Mae bron pob un o'r plant yn defnyddio'r toiled yn hyderus ac yn golchi a sychu eu dwylo yn annibynnol.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae'r rhan fwyaf o blant yn caffael medrau a gwybodaeth newydd wrth iddynt archwilio'u hamgylcheddau â brwdfrydedd. Maent yn ddigon chwilfrydig a chyfforddus i symud o gwmpas gan ddewis gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt y tu mewn ac yn yr awyr agored. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol.

Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau cyfathrebu yn llwyddiannus. Maent yn sgwrsio â'i gilydd ac ymarferwyr wrth iddynt chwarae, ac yn rhannu syniadau a barnau yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn trafod eu hoff fyrbrydau ac yn siarad am eu teuluoedd yn hapus. Mae llawer o blant yn ymuno â chaneuon a rhigymau, yn gwrando'n astud, ac yn dilyn cyfarwyddiadau syml yn effeithiol, er enghraifft wrth nôl eu cotiau a'u gwisgo i fynd y tu allan. Mae llawer o blant yn mwynhau gweithgareddau creu marciau fel tynnu llun ar fyrddau mawr y tu allan ac ysgrifennu nodiadau yn yr ardal chwarae rôl. Maent yn deall bod ystyr i'w marciau, er enghraifft wrth gofnodi'r pethau y maent yn dod o hyd iddynt ar helfa sborion. Mae ychydig o blant yn dechrau ysgrifennu llythrennau o'u henwau. Mae mwyafrif o blant yn mwynhau edrych ar lyfrau gyda ffrindiau neu oedolyn. Mae llawer o blant yn dechrau datblygu eu medrau Cymraeg. Maent yn ymateb i gyfarchion ac yn canu caneuon syml yn ystod sesiynau grwpiau cyfan ac yn ymateb i gyfarwyddiadau syml yn Gymraeg gyda chymorth gan ymarferwyr. Mae ychydig ohonynt yn cyfrif gwrthrychau ac yn enwi ychydig o liwiau.

Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau mathemategol yn briodol. Maent yn cyfrif i fyny i 10 yn llwyddiannus, er enghraifft cyfrif teganau wrth iddynt chwarae, potiau paent ar yr îsl a nifer y lolis yn yr ardal chwarae rôl. Mae llawer o blant yn defnyddio ystod dda o iaith fathemategol wrth iddynt archwilio. Maent yn adnabod cynwysyddion llawn a gwag wrth yr orsaf ddiodydd ac yn nodi ffyn hir a byr pan maent ar helfa sborion.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau datrys problemau priodol wrth iddynt chwarae, fel datrys beth yw'r ffordd orau o lynu siapiau pren i bapur a darganfod pa liwiau paent sy'n cymysgu i greu lliwiau newydd. Mae llawer ohonynt yn defnyddio adnoddau digidol yn llwyddiannus. Maent yn gweithio til yn y siop chwarae rôl ac yn tynnu ffotograffau esgus gan ddefnyddio camera digidol gyda'u ffrindiau yn ystod chwarae rôl. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau corfforol yn dda. Maent yn defnyddio wal ddringo a llithren ag ystwythder a gofal ac yn creu cyrsiau rhwystrau gyda phaledi a theiars. Maent yn mwynhau rhedeg yn rhydd yn yr ardd, gan herio'u hunain i fynd i fyny a lawr llethr. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio ystod eang o offer yn fedrus, fel pipedau yn yr hambwrdd dŵr a brwshis paent ar îsl. Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau creadigol yn dda. Maent yn dewis deunyddiau celf a chrefft i greu lluniau i fynd adref gyda nhw, yn archwilio synau offerynnau cerdd ac yn adrodd cerddi ar lwyfan y tu allan.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae pob un o'r ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel, ac maent yn blaenoriaethu eu hiechyd a'u diogelwch yn llwyddiannus. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'r polisi diogelu ac wedi cwblhau hyfforddiant priodol mewn diogelu plant a chymorth cyntaf. Maent yn cadw cofnodion cywir o ddamweiniau a digwyddiadau ac yn deall y gweithdrefnau ar gyfer rhoi meddyginiaeth. Mae ymarferwyr yn annog plant i fwynhau bwydydd iach ac yn sicrhau eu bod yn dilyn arferion cadarn wrth roi byrbrydau, ac yn ystod amser cinio. Mae ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant ag alergeddau ac yn cwblhau prosesau cofrestru manwl a threfnus i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o anghenion unigol pob plentyn, yn cynnwys cofnodion cydsynio. Mae gan y lleoliad systemau cynhwysfawr ar waith i ddarparu cymorth ar gyfer plant ag anghenion sy'n dod i'r amlwg. Mae ymarferwyr yn gweithio gyda chyrff allanol a gweithwyr proffesiynol, lle mae angen, i gefnogi plant a'u teuluoedd. Mae hyn yn gryfder yn y lleoliad. Mae ymarferwyr yn dilyn arferion hylendid cadarn, er enghraifft wrth annog plant i olchi eu dwylo'n rheolaidd, ac yn dilyn prosesau cadarn wrth newid clytiau. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae pob un o'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn eu trin â gofal a pharch. Mae ganddynt berthynas garedig â'r plant ac yn modelu rhyngweithio yn gyson ac yn ddidwyll. Mae ymarferwyr yn darparu gofal tyner ac yn adnabod pan mae angen cefnogaeth a chymorth, er enghraifft wrth wisgo, defnyddio adnoddau penodol neu i awgrymu syniadau pellach. Maent yn frwdfrydig ac yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i atgyfnerthu medrau cymdeithasol cadarnhaol. Mae pob un o'r ymarferwyr yn fodelau rôl cadarnhaol, ac maent yn annog plant i ofalu am ei gilydd. Maent yn canmol plant yn wresog ac yn eu hannog i ddatrys problemau drostynt eu hunain, er enghraifft caniatáu amser i blant benderfynu sut orau i gael dŵr o dap i ddyfrio'r gwelyau blodau.

Mae ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth dda o ddatblygiad, anghenion a dymuniadau unigol plant. Maent yn deall eu cyfrifoldebau i gefnogi diddordebau a medrau unigol plant. Maent yn cefnogi plant yn eu dysgu, er enghraifft wrth greu marciau a dysgu croesi'r ffordd yn ddiogel yn ystod wythnos diogelwch ar y ffyrdd. Mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd creadigol i ymestyn profiadau a medrau plant ac yn gwneud nodyn o'u syniadau a'u gofynion. Maent wrth law i gynnig cymorth, pan fydd angen. Maent yn awyddus i sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd i fwynhau adnoddau o safon uchel ac yn cynllunio'n effeithiol i gyflwyno gweithgareddau diddorol ac ysgogol ar eu cyfer.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o sut mae plant yn dysgu trwy chwarae ac archwilio. Maent yn cynllunio gweithgareddau ysgogol a diddorol iddynt ymchwilio. Mae ymarferwyr yn nodi diddordebau a chyfareddion plant, ac yn ymateb iddynt trwy addasu cyfleoedd dysgu, yn ôl yr angen, er enghraifft darparu deunyddiau i greu llongau gofod ar ôl sylwi ar eu diddordeb yn y gofod.

Mae ymarferwyr yn gweithio fel tîm yn llwyddiannus ac yn adnabod y plant yn dda iawn. Maent yn modelu iaith yn effeithiol ac yn annog plant i ddefnyddio geirfa newydd yn eu chwarae, er enghraifft wrth drafod siapiau a symudiadau swigod y maent yn eu chwythu. Mae ymarferwyr yn rhoi sylwebaethau am yr hyn y mae plant yn ei wneud ac yn gofyn cwestiynau syml i hyrwyddo'u dealltwriaeth a datblygu eu medrau meddwl a datrys problemau yn briodol.

Ceir cyfleoedd buddiol i blant ddatblygu eu medrau cyfathrebu. Mae ymarferwyr yn annog plant i ymuno â sgyrsiau, ymateb i gwestiynau, a rhannu eu safbwyntiau a'u barnau. Er enghraifft, maent yn sgwrsio â phlant am y tywydd ac yn eu holi am eu hoff liwiau. Mae ymarferwyr yn darparu ardaloedd darllen cyfforddus i blant fwynhau edrych ar lyfrau ar eu pen eu hunain neu gyda ffrind. Mae detholiad addas o lyfrau mewn ardaloedd eraill i ennyn diddordeb plant, er enghraifft cardiau ryseitiau yn yr ardal chwarae rôl. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw ymarferwyr yn hyrwyddo darllen yn ddigon da i ennyn a chynnal diddordeb plant mewn llyfrau a storïau. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd ystyrlon i blant ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar. Mae clipfyrddau a phapur nodiadau o gwmpas y lleoliad mewn ardaloedd dysgu eraill a chardiau laminedig i blant greu'r pethau y maent yn eu gweld y tu allan.

Mae ychydig o ymarferwyr yn cynorthwyo plant i siarad Cymraeg yn ystod sesiynau grwpiau cyfan, er enghraifft cyfrif y plant sy'n bresennol. Maent yn eu hannog i ganu caneuon syml, enwi amseroedd pontio, ac enwi ychydig o liwiau. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio'r iaith yn gyson i ddatblygu dealltwriaeth plant o eiriau ac ymadroddion syml. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol Cymru yn dda. Maent yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen ac yn cynnwys adnoddau fel baneri, gwisgoedd a llyfrau yn yr amgylchedd dysgu.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu eu medrau rhifedd, fel cyfrif teganau, teils magnetig a brigau y maent yn dod o hyd iddynt y tu allan wrth iddynt chwarae ac archwilio. Mae ymarferwyr yn annog plant i ddefnyddio geirfa fathemategol wrth iddynt chwarae, fel trafod cynwysyddion llawn a gwag o ddŵr lliw, cymharu'r gwahanol feintiau o ddelweddau o ddreigiau, a nodi teiars mawr a bach.

Mae ymarferwyr yn cefnogi datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol plant yn dda. Maent yn darparu ystod o adnoddau diwylliannol sy'n dathlu gwyliau o ystod o ddiwylliannau ac yn arddangos gwybodaeth a ffotograffau o gefndiroedd plant unigol. O ganlyniad, mae plant yn datblygu dealltwriaeth werthfawr o fywydau pobl a chredoau a allai fod yn wahanol i'w rhai nhw eu hunain.

Mae gan ymarferwyr systemau effeithiol i asesu a monitro cynnydd plant. Maent yn defnyddio deilliannau asesiadau ac arsylwadau o blant i nodi eu camau nesaf unigol a pha fedrau y mae angen iddynt eu datblygu. Mae ymarferwyr yn rhoi gwybodaeth glir i rieni a gofalwyr am gynnydd a lles eu plentyn bob wythnos, ac yn rhannu eu llyfrau teithiau dysgu gyda nhw yn ystod y flwyddyn.

## Yr amgylchedd: Da

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn cael eu goruchwylio'n ofalus mewn amgylchedd diogel, cadarn a glân. Maent yn dilyn polisïau clir a chynhwysfawr, sy'n eu galluogi i hyrwyddo diogelwch a lles plant yn llwyddiannus. Maent yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddiogelwch, gan sicrhau mai pobl awdurdodedig yn unig sy'n cael mynediad i'r lleoliad, ac yn cynnal cofnod ysgrifenedig o bob ymwelydd. Mae ymarferwyr yn dilyn ystod o asesiadau risg cynhwysfawr yn gyson. Er enghraifft, maent yn defnyddio dull rhagataliol i gwblhau gwiriadau diogelwch dyddiol o'r amgylchedd a'r gweithgareddau cynlluniedig, gan sicrhau bod risgiau posibl yn cael eu nodi a'u lleihau i'r eithaf.

Mae'r safle yn groesawgar, yn addas ar gyfer plant, ac yn darparu gofod a chyfleusterau hyblyg a threfnus i ddiwallu anghenion pob un o'r plant yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau clir i gynnal amgylchedd glân ac yn cadw offer mewn cyflwr da. Maent yn sicrhau bod maint dodrefn a mannau storio yn briodol ar gyfer oedran plant, yn meithrin annibyniaeth ac yn sicrhau cysur yn ystod chwarae. Mae arweinwyr yn cynnal ymarferion tân rheolaidd i sicrhau bod ymarferwyr a phlant yn hyderus ynglŷn â beth i'w wneud mewn argyfwng. Caiff yr holl wiriadau diogelwch angenrheidiol ar gyfer yr adeilad eu cynnal fel mater o drefn, ac mae arweinwyr yn gweithredu'n brydlon ar unrhyw argymhellion a chyngor.

Mae ymarferwyr yn darparu ystod werthfawr o adnoddau glân, sy'n briodol i oedran i blant, sy'n cael eu cynnal a'u storio'n dda lle gall plant eu defnyddio'n annibynnol. Maent yn sicrhau bod ardaloedd chwarae yn cynnig ystod fuddiol o gyfleoedd i blant fod yn egnïol ac yn annibynnol. Mae llawer o weithgareddau yn ddiddorol ac yn gyffrous ar gyfer plant, er enghraifft creu amodau mwdlyd ar gyfer eu ffrindiau. Mae'r gofod dan do yn cynnig ardaloedd chwarae ysgogol ochr yn ochr â pharthau tawel ar gyfer darllen ac ymlacio. Mae ystod dda o adnoddau amlddiwylliannol a chynaliadwy naturiol ar gael at ddefnydd annibynnol plant, fel llyfrau darllen, dillad gwisgo i fyny a gweithgareddau sy'n cael eu creu ar gyfer dathliadau arbennig fel Ramadan. Mae ymarferwyr yn dathlu

creadigrwydd plant trwy arddangos eu gwaith a ffotograffau sy’n helpu meithrin ymdeimlad cryf o berthyn.

Mae ymarferwyr wedi datblygu man chwarae diogel yn yr awyr agored sy’n cynnig ystod eang o brofiadau dysgu gwerthfawr i blant. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o’r ardal hon i gynnig cyfleoedd cyfoethog i blant ymestyn eu datblygiad corfforol a chymryd rhan mewn chwarae dychmygus.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad i gynorthwyo plant i ddysgu trwy chwarae, gan eu galluogi i gyrraedd eu llawn botensial mewn awyrgylch ysgogol a gofalgar o ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr. Rhennir y weledigaeth hon gydag ymarferwyr, rhieni a gofalwyr yn effeithiol. Mae arweinwyr yn gweithio’n ddiwyd i sicrhau bod y lleoliad yn cael ei redeg yn esmwyth ac maent yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion pwysig, fel cynnydd gyda gwelliannau cynlluniedig. Maent yn gweithio gydag ymarferwyr yn bwrpasol ac yn darparu cyfathrebu effeithiol, sy’n eu cynorthwyo i gynllunio gofal a datblygiad pob un o’r plant yn llwyddiannus. Ceir datganiad diben cynhwysfawr sy’n rhoi darlun cywir o’r lleoliad, ac mae arweinwyr yn sicrhau bod ystod addas o bolisïau a gweithdrefnau ar waith.

Mae arweinwyr wedi ymrwymo i wella’r lleoliad ac yn myfyrio’n rheolaidd ar eu gwaith i nodi beth sy’n gweithio’n dda a beth gellid ei wella. Maent yn defnyddio arsylwi uniongyrchol, adborth gan rieni, gofalwyr ac ymarferwyr i gefnogi’r broses hon. Mae arweinwyr yn nodi meysydd i’w gwella yn glir ac yn blaenoriaethu’r rhai a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth, medrau ymarferwyr, a deilliannau ar gyfer plant. Maent yn monitro cynnydd yn ofalus ac yn gwneud casgliadau cywir am fanteision y newidiadau a gyflwynwyd.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd gwerthfawr o grantiau i ymestyn cyfleoedd dysgu ar gyfer plant ac i wella darpariaeth. Maent yn trefnu gweithgareddau ar gyfer teuluoedd fel trip i theatr ac yn prynu adnoddau defnyddiol ar gyfer y lleoliad fel cysgodfannau yn yr awyr agored a llawr newydd dan do.

Mae arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio ac ymsefydlu diogel effeithiol ac yn sicrhau bod gan ymarferwyr swydd-ddisgrifiadau perthnasol, sy’n cynnwys gwybodaeth glir am eu rolau a’u cyfrifoldebau. Mae arweinwyr yn rhoi system effeithiol ar waith ar gyfer arfarniadau ymarferwyr ac yn nodi cyfleoedd gwerthfawr i ymarferwyr ddatblygu yn broffesiynol. Maent yn chwilio am hyfforddiant i ddatblygu eu harfer ac yn darparu profiadau dysgu newydd ar gyfer plant. Yn ddiweddar, maent wedi mynychu hyfforddiant ar gynllunio’r cwricwlwm, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a dull ffoneg i hyrwyddo medrau llythrennedd cynnar plant.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau cryf ag ystod o bartneriaid gwerthfawr i gefnogi dysgu a datblygiad plant yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn dda am beth mae eu plant yn ei wneud a sut maent yn dod yn eu blaenau. Maent yn defnyddio ap cyfryngau cymdeithasol i rannu ffotograffau a gwybodaeth allweddol gyda rhieni a gofalwyr bob wythnos. Mae hyn yn cynnwys awgrymiadau ar sut gallant gefnogi dysgu plant gartref, fel rhannu gwybodaeth am y cwricwlwm a nodi gwahanol arddulliau dysgu plant.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd buddiol o'r cyngor a'r arweiniad gan ystod o weithwyr iechyd proffesiynol. Er enghraifft, maent yn gwneud defnydd effeithiol o gyngor gan dîm anghenion ychwanegol yr awdurdod lleol i gefnogi plant ag anghenion sy'n dod i'r amlwg. Mae gan y lleoliad gysylltiadau gwerthfawr â'r ysgol letyol. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r tir a'r offer ffisegol mawr i gefnogi dysgu plant. Ceir trefniadau pontio effeithiol, sy'n sicrhau bod plant yn cael eu paratoi'n dda i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg yn esmwyth. Mae'r lleoliad wedi datblygu cysylltiadau defnyddiol â'r gymuned leol. Maent yn ymweld â pharciau lleol, cartref gofal cyfagos ac wedi cael ymweliadau gan yr heddlu a'r gwasanaethau tân. Mae'r cysylltiadau hyn yn cefnogi dysgu plant yn dda ac yn eu galluogi i brofi ymdeimlad o berthyn i'r gymuned ehangach.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/04/2026